TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Diploma NVQ mewn Therapi Harddwch Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn wedi'i ddylunio i roi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i chi er mwyn dechrau gyrfa ym maes therapi harddwch. Byddwch chi'n dysgu am ofal croen, colur ac amrywiaeth o driniaethau i'r corff a hyn oll wrth weithio mewn amgylchedd cadarnhaol a chyfeillgar.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych chi'n dwlu ar helpu pobl i edrych a theimlo ar eu gorau

... Mae gennych chi ddiddordeb mewn tueddiadau a thechnegau harddwch

... Rydych chi'n mwynhau gweithio â'ch dwylo a bod yn greadigol

... Rydych chi'n dymuno dechrau gyrfa yn y diwydiant harddwch

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae gyrfa ym maes therapi harddwch yn cynnig cyfuniad buddiol o greadigrwydd, rhyngweithio personol a datblygu sgiliau. Mae gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys triniaethau gofal croen, gosod colur, gofal ewinedd a dileu blew gan helpu cleientiaid i deimlo ar eu gorau. Wrth i'r diwydiant harddwch esblygu'n barhaus, mae'r llwybr gyrfa hwn yn cynnig cyfleoedd deinamig ar gyfer twf a'r cyfle i gael effaith gadarnhaol ar lefelau hunan-barch a lefelau hyder unigolion.

Byddwch chi'n dysgu am ymgynghori â chleientiaid ac unedau megis:

Trin Dwylo a Gofal Dwylo
Trin Traed a Gofal Traed
Gofal Croen a Gwaith ar yr Wyneb
Manwerthu a Hyrwyddo Cynnyrch
Derbynfa a Gwasanaeth i Gwsmeriaid
Celf Ewinedd
Dylunio a gosod colur
Triniaethau ar gyfer y llygaid gan gynnwys lliwio blew'r amrannau a'r aeliau a siapio aeliau
Cwyro – wyneb a chorff
Gallai unedau ychwanegol gynnwys estyniadau blew'r amrannau parhaol ac estyniadau ewinedd

Byddwch chi'n gweithio ar eich sgiliau mewn ystod o sesiynau ymarferol a sesiynau theori, gan weithio tuag at asesiadau ar gyfer eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o'r sector. Ceir sawl arholiad ar-lein yn ogystal ag asesiadau ymarferol gyda chleientiaid.

Yn ogystal â'ch cwrs, cewch eich annog i gymryd rhan mewn:

Cystadlaethau coleg mewnol
Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru a UK/World Skills
Gweithgareddau cymunedol
Diwrnodau ymwybyddiaeth am gynhyrchion a thriniaethau yn y diwydiant

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, bydd angen i chi feddu ar o leiaf 3 chymhwyster TGAU, gradd D neu uwch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 1 perthnasol yn y maes galwedigaethol perthnasol, gan gynnwys cymhwyster TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar isafswm y cymwysterau TGAU ar sail

profiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

Yn seiliedig ar eich cymwysterau TGAU, rhoddir gwybod i chi a ydych chi'n fwy addas ar gyfer un o ddau lwybr asesu posibl – cymhwyster Diploma Lefel 2 NVQ/VRQ neu'r Diploma Technegol Lefel 2. Bydd eich tiwtor yn trafod hyn gyda chi yn ystod eich sesiwn anwytho.

Mae Therapi Harddwch yn sector sy'n seiliedig ar ymarfer ymarferol felly mae gweithio mewn ystafelloedd triniaeth, gweithio ar ddysgwyr eraill a gweithio gyda chleientiaid yn rhan fawr o'r cwrs.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

NVQ Diploma Lefel 3 mewn Therapi Harddwch neu Therapïau Cyflenwol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, disgwylir i chi brynu'r cit priodol, oddi wrth ein cyflenwr a gymeradwywyd, sy'n costio oddeutu £86, yn amodol ar adolygiad pris/cynnydd pris oherwydd chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau diwydiant, bydd gofyniad i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent i'w harchebu oddi wrth ein cyflenwr a gymeradwywyd. Cewch fanylion ynghylch sut i archebu eich gwisg, ac opsiynau talu'r cyflenwr gan eich Pennaeth Ysgol, eich Darlithydd neu'ch Technegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw oddeutu £45, yn amodol ar gynnydd pris oherwydd chwyddiant. Fel rhan o'r ymarfer proffesiynol, mae'n rhaid i wallt gael ei glymu yn ôl yn daclus oddi ar yr wyneb a modrwy briodas yw'r unig gemwaith a ganiateir yn y salon.

Gallai costau eraill godi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.